**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A’R ECONOMI**
**7 CHWEFROR 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a’r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 7 Chwefror 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd** David Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Ian Hodge, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose a Roy Wakelam

**HEFYD YN BRESENNOL FEL ARSYLWYR**: Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael)

**CYFRANWYR:**

Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd), Y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a’r Economi), y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi), y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) (ar gyfer cofnod rhif 50),
Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a’r Amgylchedd Naturiol) (ar gyfer cofnodion rhifau 51, 52 a 53),
Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth Gynllunio) (ar gyfer cofnod rhif 54).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Ray Hughes, y Cynghorydd Dave Hughes.

## 52. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 53 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a’r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu. Cadarnhaodd y byddai David Matthews o Uchelgais Gogledd Cymru yn bresennol i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Tir ac Eiddo, yn ychwanegol at yr eitemau ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod mis Mawrth. Gan gyfeirio at y cyfarfod ar y cyd i drafod parcio y tu allan i ysgolion gyda’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, adroddodd i hwn gael ei aildrefnu ar gyfer 23 Mawrth 2023 am 2pm. Yna, cyflwynodd yr Hwylusydd drosolwg o’r eitemau sydd ar y rhaglenni ar gyfer

y cyfarfodydd i ddod, gan ofyn i'r aelodau a hoffen nhw gyflwyno eitemau i'w cynnwys.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mike Peers am p'un a fyddai gorfodaeth yn cael ei gynnwys, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) y byddai'n cynnwys mesurau gorfodaeth parcio y tu allan i ysgolion. Mewn perthynas â materion gorfodaeth eraill, cadarnhaodd y cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Prif Swyddog (Tai) ac Aelodau'r Cabinet, ac y cynigiwyd trefnu gweithdy portffolio ar y cyd, a allai hefyd gynnwys gorfodaeth tipio anghyfreithlon. Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers a ellid cynnwys gorfodaeth parcio yn gyffredinol yn y gweithdy, a chytunwyd i wneud hyn.

Yna, cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws yr eitemau a restrwyd. Cyfeiriodd at y cam gweithredu a oedd yn ymwneud â rhestr cwestiynau gan y Cynghorydd Mike Peers, gan gadarnhau bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wedi darparu'r wybodaeth honno.

Teimlai'r Cynghorydd Mike Peers fod y cam gweithredu'n dal i fod ar agor gan nad oedd y ddolen i gyfarfod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Ionawr yn cynnwys copi o'r cwestiynau a godwyd gan yr aelodau. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi cysylltu â'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, ac y byddai'n siarad ag ef unwaith eto. Byddai'n siarad gyda'r Cynghorydd Peers y tu allan i'r cyfarfod ar ôl cael arweiniad gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) ar p'un a ellid rhannu'r wybodaeth hon ai peidio.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 54. STRATEGAETH NEWID HINSAWDD

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos nesaf ac y byddai unrhyw sylwadau gan y pwyllgor hwn yn cael eu croesawu. Roedd yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Dechreuodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) drwy ddweud bod y Strategaeth Newid Hinsawdd wedi cael ei mabwysiadu ym mis Chwefror y llynedd a bod data Ôl Troed Carbon 2021/22 y Cyngor wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yna, tynnodd sylw at feysydd penodol o fewn yr adroddiad a oedd yn cynnwys targedau allyriadau ac ôl troed carbon y Cyngor. Cafwyd gwybodaeth am y themâu o fewn y cynllun, yn ogystal â'r wybodaeth

ddiweddaraf am dargedau a gyflawnwyd o ran adeiladau, symudedd, cludiant a chaffael.

Gan symud ymlaen at Flaenoriaethau 2023/24, amlinellodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) y gwelliannau yn y fethodoleg casglu data, yn enwedig o amgylch caffael, gan adrodd ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo gyda'r swyddogion comisiynu a'r cyflenwyr. Cafwyd trosolwg o'r wybodaeth am y blaenoriaethau ar gyfer milltiroedd busnes, cofnodi cerbydau gweithwyr, teithio i'r gwaith a gweithio gartref a'r broses dendro wrth weithio gyda chyflenwyr. Yna, cyflwynodd wybodaeth am hyfforddiant llythrennedd carbon, gosod llinell sylfaen ar gyfer adeiladu a stoc tir a gwelliannau i drydaneiddio cerbydau fflyd, ynghyd ag ysgol di-garbon net a'r nod o gael cartref gofal di-garbon net a chynllun ynni ardal leol.

Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon), bod Cynorthwy-ydd Prosiect Newid Hinsawdd wedi cael ei benodi, yn ychwanegol ati hi, gyda Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd yn dechrau ymhen dau fis. Cadarnhawyd hefyd bod pwysau refeniw dan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gael Cydlynydd Prosiectau Ynni i arwain ar ynni adnewyddadwy, arbed ynni a chymorth i'r isadeiledd Cerbydau Trydan. Adroddodd hefyd ar y cydweithio â Chyngor Sir Ddinbych ar gael Swyddog Caffael Carbon a chael gafael ar gyllid ychwanegol gan LIC a'r sector preifat.

Yn dilyn cwestiynau gan y Cynghorydd Mike Peers, cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) yn gyntaf at baneli solar ar ysgolion. Dywedodd fod y dewis delfrydol wedi'i ddarparu ar gyfer to pob adeilad, gan roi ystyriaeth i ganfod beth fyddai'r ad-daliad ar y buddsoddiad a'r ynni adnewyddadwy a gyflawnir i wrthbwyso'r gost. Cytunodd i siarad â thîm arall am y pwynt refeniw a gynhyrchir ac adrodd yn ôl.

Gan gyfeirio at y pwynt am ostyngiadau mewn costau gwresogi o adeiladau neu oleuadau stryd, cadarnhaodd y cyflawnwyd y rhain drwy waith uwchraddio dan y rhaglen Buddsoddi i Arbed, gyda'r ffigurau hyn yn cael eu cymharu â gwybodaeth sylfaenol 2018.

Mewn perthynas â'r cyfleoedd i ddatgarboneiddio adeiladau, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) bod hyn yn flaenoriaeth er mwyn dod i ddeall yn well yr hyn y gellid ei gyflawni o fewn stoc bresennol y cyngor.

Mewn ymateb i inswleiddio atigau ac ystafelloedd haul, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) y cefnogwyd y rhain drwy'r Tîm Ynni Domestig, a chytunodd i gyfeirio'r cwestiwn hwn atyn nhw.

Codwyd cwestiwn gan y Cynghorydd Dan Rose am fesuriadau o ran caffael, a chadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) nad oes mesuriad safonol wedi'i sefydlu ar hyn o bryd. Roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wrthi'n datblygu pecyn gwaith a fyddai'n ei gwneud yn haws i gynghorau gynnwys pwysoli carbon wrth dendro ac i gyflenwyr adrodd am allyriadau carbon o fewn contractau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Lloyd ar y defnydd o danau agored yn eiddo'r cyngor, nid oedd Rheolwr y Rhaglen (Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon) yn ymwybodol o unrhyw bolisïau gan Lywodraeth Cymru, ond adroddodd am sawl ymholiad a gafwyd ynglŷn ag adfer tanau agored, na fyddai'n cael eu cefnogi. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân i Gymru, a fyddai mwy na thebyg yn dilyn yr hyn a oedd yn digwydd yn Lloegr.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi i Reolwr y Rhaglen am ei gwaith, gan ddweud fod nifer o agweddau cadarnhaol o fewn yr adroddiad, ond bod caffael yn broblem go iawn. Teimlai y byddai pecyn gwaith LlC, pan fydd ar gael, yn fuddiol iawn i gontractwyr mawr ac i'r Cyngor. Dywedodd ei bod yn annheg bod hyn yn cael ei gysylltu â gwerth y nwyddau a gyflenwyd yn hytrach na nifer y milltiroedd a deithiwyd ac, ar ôl cynnwys chwyddiant, nad oedd unrhyw awdurdod yn elwa ar y sefyllfa.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mared Eastwood a Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.
(b) Cefnogi gwelliannau i gyfathrebu mewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnydd cadarnhaol y Cyngor wrth symud ymlaen tuag at gyflawni ei uchelgeisiau newid hinsawdd.
(c) Cefnogi'r gwaith o gychwyn ymwreiddio mesurau carbon i mewn i brosesau caffael o fewn portffolio peilot y Cyngor.
(d) Cefnogi'r achos dros swydd ac adnoddau Buddsoddi i Arbed er mwyn cyflwyno Systemau Rheoli Adeiladau o fewn mwy o'n hadeiladau, i wella'r broses o reoli'r defnydd o ynni.
(e) Cefnogi'r gwaith o ymwreiddio egwyddorion newid hinsawdd drwy'r Cyngor cyfan, drwy gyflwyno hyfforddiant Llythrennedd Carbon i Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a swyddogion eraill sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

## 55. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH COETIROEDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad, gan gadarnhau y mabwysiadwyd y Strategaeth Coed a Choetiroedd yn 2018 i helpu plannu coed a chynyddu'r brigdwf coed. Aeth Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) ymlaen i ddweud y sefydlwyd y Strategaeth Coed a Choetiroedd i gynyddu'r brigdwf coed ac i sicrhau bod coed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan amlygu'r manteision y mae coed yn eu cynnig i drigolion Sir y Fflint. Amlinellodd y targedau a osodwyd ar gyfer cynyddu'r brigdwf coed o 14.5% i 18% erbyn 2033. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnal yr asesiad o'r brigdwf coed, ond nid yw hyn wedi cael ei adolygu ers 2018, felly nid oedd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar hyn o bryd.

Adroddodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) fod coed wedi cael eu plannu yn y blynyddoedd diweddar ar safleoedd a nodwyd yn y sir, gan ddefnyddio cyllid Grant Gwella Coetiroedd Llywodraeth Cymru a'r Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Amlinellodd sut y

cynyddwyd y brigdwf coed gyda chynlluniau coed wedi'u cynllunio'n dda, gan sicrhau ôl ofal a chynnwys cymunedau lleol i wneud yn siŵr bod y coed yn goroesi.  Amlinellodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y broses a ddilynwyd i sicrhau bod y prosiectau plannu hyn yn llwyddiannus.  Cafodd dros 23,000 o goed eu plannu dros y 4 blynedd diwethaf, a chanmolodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) ei dîm am eu gwaith caled a wnaeth hyn yn bosib.   Roedd ymgysylltu â chymunedau'n allweddol i hyn, a darparodd fap stori o brosiectau plannu coed ledled y sir a oedd yn amlygu'r gwaith a wnaed.

Yna, cafwyd gwybodaeth gan Reolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) am ddatblygiad arfaethedig Coedwig Sir y Fflint.  Awgrymwyd y gallai Coedwig Sir y Fflint adlewyrchu cyfeiriad Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru.  Amlinellodd yr amcanion ar gyfer creu ardaloedd o goetir newydd, mannau hamdden a natur, casglu a storio carbon, yn ogystal â darparu pren.  Byddai angen cydweddu amcanion allweddol y Strategaeth Coed a Choetiroedd Trefol a Choedwig Sir y Fflint.  Cyfeiriodd yr aelodau at y fframwaith ym mhwynt 1.11 yr adroddiad, gan gynnig trosolwg o'r elfennau allweddol, y weledigaeth a'r ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Roy Wakelam am ddiogelu coed hŷn presennol, amlinellodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) fecanweithiau fel Gorchmynion Diogelu Coed ac amodau cynllunio.  Cyfeiriodd at ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd cyn cychwyn ar brosiectau plannu a'r ychydig o wrthwynebiad a gafwyd i blannu coed, gan ddweud bod ymgysylltu â'r cyhoedd i dynnu sylw at fanteision coed, yn ogystal â sicrhau bod y coed cywir yn cael eu plannu, yn allweddol i'w diogelwch parhaus.  Byddai hybu plannu coed da, gan blannu'r coed cywir mewn datblygiadau newydd, yn sicrhau gwell canlyniadau.   Gan gyfeirio at golli coed, cadarnhaodd y collwyd tua 1,000 o goed o ganlyniad i glefyd coed ynn dros y gaeaf ar briffyrdd, ond bod mwy o goed yn cael eu plannu yn lle'r rhain.  Roedd y gwaith hwn yn hanfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dan Rose, ymatebodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) yn gyntaf i lwyddiant y pwynt am blannu 23,000 o goed, gan ddweud bod yna 20% o fethiant yn fras ar gyfer coed chwip bychain, a bod y gofal mwyaf posib yn cael ei gymryd i sicrhau bod y coed safonol mwy yn goroesi.  Yn ystod sychder y llynedd, gyda 5,000 o goed wedi'u plannu ym Mharc Gwepra, ni fu'n bosib sicrhau bod yr holl goed yn goroesi.  Eleni, roedd coed newydd yn cael eu plannu yn lle'r coed chwip a gollwyd.

Mewn ymateb i'r pwynt am y tomwellt o'r coed a dorrwyd i lawr, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) fod hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio i gadw gwlybaniaeth yn y tir ac i atal chwyn rhag tyfu ar goed safonol a gwrychoedd.   Cadarnhaodd hefyd bod gwaith wedi'i wneud ar ddal a storio carbon ar safleoedd ledled y sir er mwyn sicrhau nad oedd plannu coed yn amharu nag yn tarfu ar unrhyw amgylchedd sefydledig.

Mewn ymateb i'r pwynt am gofnodion, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y cedwir

cofnodion o'r rhywogaethau a'r perllannau a blannwyd, gan roi gwybodaeth am y dyddiau coed a'r sesiynau sudd afal a gynhelir yn defnyddio ffrwythau o goed ffrwythau treftadaeth.

Mewn ymateb i'r cwestiwn am amddiffyn ardaloedd plannu newydd, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr ardaloedd a oedd yn cael eu hadolygu ar dir Sir y Fflint ac y bydden nhw fel tirfeddianwyr yn eu hamddiffyn. Os bydd datblygiad y digwydd ger tir y cyngor, byddai asesiadau'n cael eu cynnal i sicrhau na fyddai yna unrhyw effaith ar y coed.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gan holi a oedd yna ffordd o fynnu bod Datblygwyr yn cynnwys mwy o goed sefydledig yn eu cynlluniau. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) na fyddai hyn yn briodol ar gyfer pob safle, ond y dylai'r Tîm Rheoli Datblygiadau ystyried hyn wrth asesu effeithiau posib ar y safle.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mike Peers, cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) yn gyntaf at y cwestiwn am y goedwig. Cadarnhaodd yr ymgysylltwyd â'r cyhoedd mewn mannau a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer plannu coed. Byddai pob cais i blannu coed er mwyn cynyddu'r brigdwf coed yn cynnwys arolwg o gyflwr y tir, gosodiadau a choed presennol cyn penderfynu pa fath o goed i'w plannu. Er enghraifft, ni fyddai coed gyda drain neu aeron gwenwynig yn cael eu hystyried ar gyfer tir ysgolion.

Wrth ymateb i'r cwestiwn am y coridor gwyrdd gan yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) na fyddai coed na choetiroedd yn cael eu plannu ar eu pennau eu hunain. Roedd yna gyfyngiadau mewn perthynas â'r tir a oedd ar gael a'i gysylltedd â'r amgylchedd ehangach, ond roedd y tirfeddianwyr yn cael eu cynnwys yn y broses hon.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dan Rose, amlinellodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y gwaith a wnaed ar y cyd dros sawl blwyddyn gyda'r partneriaid o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd hyn wedi ei gwneud yn bosib mapio asedau gwyrdd o fewn y sir gyda sawl prosiect bychan llwyddiannus. Roedd y sefyllfa mewn perthynas â'r tirfeddianwyr yn wahanol o ran cyllid, ond roedd yna ddewisiadau.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cefnogi swyddogion yn eu gwaith rheoli coed a choetiroedd parhaus.

(b) Y byddai'r Aelodau'n cefnogi cynlluniau i ddatblygu Coedwig Sir y Fflint yn unol â'r manylion fframwaith a ddarparwyd.

## 56 CYNLLUN RHEOLI PARC GWEPRA

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) mai Cynllun Rheoli Parc Gwepra oedd eu dogfen weithredol graidd ar gyfer arwain y gwaith, y camau datblygu a'r datblygiad dros dymor o 5 mlynedd. Darparodd wybodaeth am y newidiadau yn y fformat ers cynllun 2016/2021, gan amlinellu sut y byddai'r cynllun newydd yn cael ei strwythuro. Yna cafwyd gwybodaeth gan Reolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) am yr amserlen cynnal a chadw barhaus a'r rhaglen ar gyfer y parc wrth symud ymlaen. Cafwyd gwybodaeth yn Atodiad 3 am yr ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a gynhaliwyd y llynedd, a throsolwg o'r cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr. Cafwyd amlinelliad o feysydd penodol o fewn y Cynllun Rheoli ar gyfer y parc a oedd yn sicrhau bod ardaloedd cadwraeth sensitif yn cael eu hamddiffyn ond hefyd yn croesawu ymwelwyr. Yna cyfeiriodd at Atodiad 2 a oedd yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer rhedeg busnes y parc o ddydd i ddydd, a chyflwynodd wybodaeth am adnoddau a chyllid allanol, y Ceidwad a'r tîm amgylchedd naturiol a'r gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r parc.

Mewn ymateb i gwestiynau am gyllid gan y Cynghorydd Mike Peers, eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth bod y cyllid craidd sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol wedi'i nodi ar gyfer y staff ac i alluogi'r parc i weithredu o ddydd i ddydd gyda chymorth y gwirfoddolwyr. Gellid gwneud rhywfaint o'r gwaith a amlygwyd yn y camau gweithredu yn Atodiad 2 o fewn y gyllideb honno. O ran gofynion cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau, cadarnhaodd y byddai'r rhain yn cael eu canfod o ffrydiau cyllido allanol a oedd yn anodd eu rhagweld. Roedd yn hanfodol rhoi'r hyder hwnnw i'r cyllidwyr eu bod yn prynu i mewn i rywbeth a oedd yn gydnabyddedig, a oedd wedi bod drwy ymgynghoriad ac a oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun ar gyfer y parc.

Yn dilyn cais am y wybodaeth ddiweddaraf am yr arbrawf ynni dŵr yn Nant Gwepra gan yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y codwyd argae yn Nant Gwepra yn y 1800au er mwyn cyflenwi trydan i Blas Gwepra. Cafwyd trafodaethau am gynllun blaenorol a gafodd ei roi o'r neilltu ac yna adroddodd ar gais gan Goleg Prifysgol Llundain (UCL), a oedd wedi datblygu offer newydd yr oedden nhw eisiau ei brofi. Gosodwyd yr offer dros dro yn ystod hydref y llynedd ac roedd UCL yn falch ei fod wedi gweithio'n dda ac wedi ymestyn eu hymchwil ymhellach. Ar ôl cael y ffigurau am lif y dŵr ac effeithlonrwydd y tyrbin, byddai'n bosib cadarnhau costau ar gyfer gosod y tyrbin newydd. Byddai hyn yn gydnaws â'r parc ac yn cysylltu â'r ganolfan ymwelwyr ac yn cynhyrchu ad-daliad am y trydan a gynhyrchwyd. Roedd disgwyl y byddai'r ffigurau'n dod i law o fewn yr ychydig wythnosau nesaf ac yna gellid penderfynu a ddylid symud ymlaen â hyn ai peidio.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Richard Lloyd.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Aelodau'n cymeradwyo'r cynllun rheoli 5 mlynedd newydd ar gyfer Parc Gwepra.

## 57 POLISI COFEBION MEWN MANNAU AGORED AC AR BRIFFYRDD

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd yna bolisi ar hyn o bryd ar gyfer cofebion a osodir ar y rhwydwaith priffyrdd neu ar dir y cyngor. Teimlai fod y polisi hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y gost gychwynnol, y gwaith cynnal a chadw hirdymor ac ystyriaeth o'r lleoliad, gan fod hwn yn fater sensitif.

Adroddodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) bod ceisiadau wedi dod i law gan aelodau'r cyhoedd am gael gosod mainc goffa neu blannu coeden er cof am anwyliaid o fewn safleoedd cefn gwlad a mannau agored. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ceisiadau hyn wedi cynyddu'n sylweddol ac wedi arwain at bryderon na ddylid troi mannau agored yn erddi coffa. Roedd hwn yn fater sensitif ac roedd rhaid i'r cyngor fod yn ystyriol o deuluoedd a'u hamgylchiadau.

Diben y polisi hwn oedd cydweithio â theuluoedd mewn ffordd sensitif ac ystyried pob dewis o ran cofebion yn ychwanegol at feinciau, fel plannu coeden neu ddarn o wrych, gosod camfeydd neu gyfrannu giatiau, a oedd hefyd yn cael eu hystyried mewn parciau gwledig. Gan gyfeirio at gofebion ar briffyrdd, dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) fod y rhain ychydig yn wahanol, gan fod angen ystyried diogelwch o ran tynnu sylw gyrwyr. Byddai'r polisi hwn yn gadael i swyddogion siarad â'r teuluoedd i sicrhau y gellid cyrraedd canlyniad cadarnhaol. Roedd yna broblemau hefyd o ran cyllid yr oedd rhaid eu hystyried, gan gynnwys y pryniant cychwynnol, y gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu'r eitem, y dylai'r ymgeisydd fod yn gyfrifol amdanyn nhw. Yna, adroddodd am y sensitifrwydd angenrheidiol pan fyddai teuluoedd yn cyfarfod i ryddhau balwnau, a oedd yn broblem gan eu bod yn rhyddhau plastig a sbwriel yng nghefn gwlad. Byddai'n rhaid cynnal trafodaethau gyda'r teuluoedd i ddod o hyd i ffyrdd amgen iddyn nhw nodi marwolaeth aelodau'r teulu.

Mewn ymateb i gwestiynau am blannu coed coffa a rhyddhau balwnau gan y Cynghorydd Dan Rose, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y câi teuluoedd blannu coed. Roedd yna beryglon ynghlwm â hyn y byddai'n rhaid eu trafod gyda'r teulu, fel coed yn marw mewn cyfnodau o sychder neu'n dioddef fandaliaeth a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw. Nid oedd o blaid gosod placiau, ond gellid defnyddio llyfr coffa yn y canolfannau ymwelwyr neu ar lein i gofnodi hyn. Gan gyfeirio at ryddhau balwnau, dywedodd ei bod yn anodd i'w swyddogion fynd at deulu mewn galar i ofyn iddyn nhw beidio â rhyddhau balwnau. Hysbysebu a darparu gwybodaeth am risgiau gwneud hyn oedd y ffordd ymlaen.

Gofynnodd y Cynghorydd Dan Rose a fyddai placiau bioddiraddadwy yn cael eu hystyried fel mesur tymor byr, a chadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) y byddai'n fodlon ystyried hyn.

Awgrymodd y Cynghorydd Roy Wakelam y dylid annog teuluoedd i adael blodau heb eu lapio, wedi'u clymu gyda llinyn. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a'r Amgylchedd Naturiol) bod rhaid cael gwared â blodau sy'n pydru hefyd, ac efallai y byddai'n fwy priodol awgrymu y gallai pobl adael blodau heb eu lapio ond bod rhaid cael gwared â

nhw cyn pen pythefnos.  Teimlai’r swyddogion yn amharod i gael gwared â rhywbeth a oedd wedi cael ei adael er cof am rywun, ond byddai’r polisi hwn yn eu galluogi i gael gwared â blodau wedi pydru.

Ceisiodd y Cynghorydd Mike Peers eglurhad am y pwynt am adael rhoddion mewn ewyllys ar dudalen 109, adrannau 1.10 ac 1.13, gan awgrymu ystyried y geiriad canlynol:- “gallwch adael rhodd i Gyngor Sir y Fflint neu’r Gwasanaethau Cefn Gwlad ar ôl i’ch cyfarwyddiadau gael eu trafod a’u cytuno gan y ddwy ochr”.  Roedd Rheolwr y Gwasanaeth (Mynediad i Gefn Gwlad a’r Amgylchedd Naturiol) yn fodlon cynnwys y geiriad ychwanegol hwn.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a’u heilio gan y Cynghorwyr Roy Wakelam a Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai’r pwyllgor yn cymeradwyo’r polisi yn amodol ar y diwygiad a awgrymwyd gan y Cynghorydd Mike Peers.

## 58. CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR DRAFFT DŴR CYMRU 2024 – LANSIO’R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

Wrth gyflwyno’r adroddiad hwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi) fod hwn yn ymgynghoriad byw a bod rôl Dŵr Cymru yn hanfodol, yn arbennig mewn perthynas â’r CDLl a rheoli ffosffadau.

Siaradodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) yn gyntaf am yr eitem flaenorol, sef bioamrywiaeth, gan ddweud bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cynnwys nifer o bolisïau a fyddai’n helpu gyda’r problemau hynny i ddiogelu coed, coetiroedd neu wrychoedd.   Roedd yna hefyd fesurau amddiffyn mannau gwyrdd a mannau trefol ynghyd â pholisïau newydd ar enillion net bioamrywiaeth.

Wrth symud ymlaen at yr adroddiad, dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) fod yr ymgynghoriad hwn gan Dŵr Cymru wedi cael ei anfon at fudd-ddeiliaid allweddol ac yn ymwneud â diweddariad o’u Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, a oedd yn ddogfen strategol yr oedd rhaid ei diweddaru bob 5 mlynedd.  Y rheswm am hyn oedd sicrhau diogelwch hirdymor y cyflenwad dŵr ar gyfer defnydd busnesau a chartrefi.  Roedd Dŵr Cymru wedi tynnu sylw at y sychder a welwyd y llynedd ac wedi cyflwyno cadernid rhag sychder o fewn y cynllun hwn.   Cyfeiriwyd yr Aelodau at y map a oedd yn dangos y 23 parth cynllunio yn yr adroddiad, ac ym mhwynt 1.03, yn cynnwys yr amcanion a’r ysgogwyr allweddol o ran sut y byddai’r mesurau hyn yn cefnogi’r ardaloedd hynny â phrinder.  Rhoddwyd trosolwg o’r cyflenwad dŵr gan Dŵr Cymru ym mhwynt 1.04 yr adroddiad i sicrhau bod Dŵr Cymru, pan fo digwyddiadau difrifol yn codi, yn gallu darparu cymaint o gyflenwad ag y bo modd.  Eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) bod Sir y Fflint ym mharth Alwen Dyfrdwy, ac yna rhoddodd wybodaeth am sut y gwneir y cyfrifiadau.  Roedd pedair ardal wedi’u nodi fel ardaloedd a fydd yn wynebu prinder, gyda thair yn Ne Cymru ac un yn y Gogledd.   Amlinellodd sut y gallai rheoli'r galw effeithio ar y sir a’r mesurau a sefydlwyd i leihau defnydd dyddiol.  Roedd mwy o ddefnydd o fesuryddion dŵr hefyd yn cael eu hyrwyddo.

Cyfeiriodd at bwynt 1.10 yr adroddiad a'r pwyntiau bwled a restrir, gan egluro pam fod angen eglurhad pellach a chadarnhad o'r canlynol:-

- Bod y twf yn CDLl Sir y Fflint wedi cael ei ystyried yn y cynllunio hwn.
- Bod y Cyngor yn cefnogi'n llwyr y mesurau cadernid ehangach i helpu gwella gollyngiadau.
- Ei fod o blaid codi ymwybyddiaeth ymysg cwsmeriaid o sut i ddefnyddio dŵr yn effeithlon.
- Y gallai lleihau'r dŵr gwastraff sy'n mynd i weithiau trin o bob eiddo domestig a masnachol helpu rhyddhau llai o ffosffadau i afonydd.
- Bod y Cyngor yn annog gwell cysylltiad rhwng cynllunio adnoddau gwastraff a chynllunio dŵr gwastraff, er mwyn gallu dod â gwelliannau ymlaen.
- Ei fod yn ceisio ymrwymiad am gyswllt a chydweithredu mwy rheolaidd gyda Dŵr Cymru fel partner allweddol, naill ai ar lefel strategol neu leol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mike Peers, ymatebodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) yn gyntaf i'r pwynt am leihau gollyngiadau, gan ddweud efallai y byddai cyhoeddi rhaglen bendant yn helpu. Roedd gan Dŵr Cymru seilwaith sy'n heneiddio y maen nhw'n gweithio drwyddi, ond roedd yn fwy o broses ymatebol gan ei fod yn ymarfer costus. Gellid ystyried cydweithio â darparwyr statudol eraill wrth wneud gwaith ar ffyrdd er mwyn achub ar gyfleoedd i rannu gwaith.

Mewn ymateb i'r cwestiwn am ddŵr ffo a dŵr wyneb, eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) bod rhaid i ddatblygwyr ystyried ffyrdd mwy cynaliadwy o fynd i'r afael â llif dŵr wyneb. Roedd datblygwyr yn dal i fod yn cael trafferth gyda SUDS, ac roedd hyn yn rhywbeth a oedd yn gorfod digwydd.

Gofynnod y Cynghorydd Ian Hodge a oedd gofyn i bob datblygiad newydd fynd ar fesurydd dŵr yn awtomatig. Mewn ymateb, nid oedd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) yn gwybod a oedd hyn yn un o'r gofynion cynllunio ai peidio, ond roedd yn un o ofynion y cyrff dŵr. O fewn y wybodaeth a gafwyd gan Dŵr Cymru, roedd yn ymddangos nad oedd yn ofyniad, a allai fod yn rhan o'r broblem, a dylid annog mwy o bobl i gael mesuryddion a thawelu ofnau teuluoedd mawr nad ydyn nhw eisiau mesuryddion.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd at ddatblygiadau'r CDLl yn y dyfodol, gyda mwy o eiddo'n cael eu hadeiladu, gan ofyn a oedd Dŵr Cymru wedi ystyried hyn. Roedd uwchraddio'r gweithiau trin carthffosiaeth a fyddai'n cael eu heffeithio gan y problemau ffosffadau, a ffyrdd o fynd i'r afael â ffosffadau wedi cael eu cynnwys yn y CDLl.

Mewn ymateb, adroddodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) bod Dŵr Cymru wedi bod yn fudd-ddeiliad allweddol a oedd yn cael ei gynnwys drwy gydol y CDLl, a'u bod yn ymwybodol o'r twf, nifer y tai ac yn deall y byddai gofynion SUDS yn cael eu cynnwys fel rhan o reoli dŵr wyneb. Sicrhau gwell systemau cyfathrebu gyda Dŵr Cymru oedd y ffordd orau o sicrhau eu bod yn deall yr hyn yr oedd gofyn i'r cyngor ei wneud, a beth oedd eu gofynion nhw hefyd. Ni allai'r gwaith o uwchraddio'r gweithiau trin ddigwydd yn ddigon cyflym gan mai dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r problemau ffosffadau.

Mewn ymateb i gwestiwn am Dwnnel Milwr gan yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) y byddai'n mynd â hyn yn ôl fel mater ar wahân, ac yn ysgrifennu at Dŵr Cymru i ofyn cwestiynau penodol am y defnydd o Dwnnel Milwr i dynnu dŵr ac ar gyfer ynni dŵr.

Awgrymodd y Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi y dylid anfon gwahoddiad i un o gynrychiolwyr Dŵr Cymru ddod i un o gyfarfodydd y pwyllgor.  Cytunodd aelodau'r pwyllgor i hyn.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth (Strategaeth) ei fod yn fodlon drafftio'r llythyr mewn perthynas â Thwnnel Milwr, yn dibynnu ar y dyddiad yr oedd y cynrychiolwr ar gael i ddod i gyfarfod, ac y gallai sylwadau'r ymgynghoriad fynd yn unol â'r argymhellion.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn a phrif ganlyniad Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft 2024, sy'n dangos nad oes yna broblemau cadernid cyflenwad ar gyfer parth Alwen Dyfrdwy, y mae Sir y Fflint yn rhan ohono.
(b) Y byddai'r Aelodau'n cefnogi cynnwys paragraff 1.10 yr adroddiad hwn ac yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi baratoi ymateb terfynol a chytuno ar hwn gyda Chadeirydd y pwyllgor hwn, cyn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau.

**59. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12:32pm)

……………………………
**Y Cadeirydd**